

newyddion Cymraeg Colegau Cymru #202 09 Tachwedd / November 2015

Croeso i e-newyddion Colegau Cymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news.

Os ydych yn darllen copi sydd wedi ei anfon atoch gan rywun arall, ac hoffech danysgrifio eich hun, da chi [Cysylltwch](#).

Do please [let us know](#) if you would like to subscribe to our English language version as well as - or instead of - this Welsh language version.

Datblygiadau Strategol

800 oed 16-19 mewn cystadlaethau chwaraeon cenedlaethol 10-11 Tachwedd yng Nghaerdydd

Bydd cystadlaethau cenedlaethol Chwaraeon Colegau Cymru a gynhelir ar 10 a 11 Tachwedd 2015 yng Nghaerdydd yn gweld 800 o fyfyrwyr coleg 16-19 oed o bob rhan o Gymru yn cystadlu mewn 10 o chwaraeon gwahanol.

[Mwy>>>](#)

Newid gêr yn y ganolfan newydd trin cerbydau

Mae cwblhau canolfan gwerth milynau o bunnodd ar gyfer Hyfforddiant Trin Cerbydau Modur yn Ystrad Mynach yn golygu bod dysgwyr yr ardal yn cael defnydd o ddatblygiadau mwyaf blaengar y diwydiant yn Ne Cymru.

Bydd yr adnodd gwerth £2.1 miliwn ar gampws Ystrad Mynach Coleg y Cymoedd yn cwrdd â galwadau cynyddol yn y diwydiant am gyfleusterau hyfforddi o'r radd flaenaf.

[Mwy>>>](#)

Lansio Rhwydwaith Seren De-ddwyrain Cymru

Daeth dros 280 o bobl ifanc o 27 o ysgolion a Choleg Gwent ynghyd ym Mharth Ddysgu Blaenau Gwent Coleg Gwent ar gyfer lansiad Rhwydwaith Seren yr hwb Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysgol De-ddwyrain Cymru.

Mae Seren yn rhwydwaith o ganolfannau rhanbarthol sydd a'r bwriad o gefnogi disgyblion chweched dosbarth mwyaf disglair Cymru i gyflawni eu potensial academiaidd a chael mynediad i brifysgolion blaenllaw.

[Mwy>>>](#)

Colegau o Ansawdd

Coleg Caerdydd a'r Fro yn ennill gwobr Coleg y Flwyddyn mewn gwobrau busnes anrhydeddus

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi cael ei goroni yn Goleg y Flwyddyn mewn Gwobrau Busnes a Phartneriaethau Addysg anrhydeddus.

Hefyd enillodd y Coleg Wobr Datblygu Pobl am ei waith gyda Grŵp Gwalia.

[Mwy>>>](#)

Dilyniant Myfyrwyr

Cyn-ddysgwraig yn dal ei gafael ar deitl ym Nghampau Byd Athletau IPC

Mae Hollie Arnold, sy'n gyn-ddysgwyr chwaraeon Coleg y Cymoedd, â'i bryd ar ennill aur yn y Gemau Paralympaidd ar ôl ennill cystadleuaeth y waywffon F46 unwaith eto ym Mhencampwriaeth Byd Athletau IPC yn Doha.

[Mwy>>>](#)

Cwmni Anrhydeddus Lifrai yn gwobrwyo myfyriwr

Gwobrwywyd Calum Mitchel, myfyriwr Safon Uwch yng Ngholeg Gwent, gan Gwmni Anrhydeddus Lifrai Cymru mewn cydnabyddiaeth o'i ymroddiad i'w astudiaethau ac i gefnogi ei ddilyniant i Brifysgol Caerdydd.

[Mwy>>>](#)

Llongyfarchiadau! Llwyddiant Staff a Myfyrwyr

Gwobrau Prentisiaethau Cymru

Cafwyd gydnabyddiaeth o gyflawnwyr teilwng yng Ngwobrau Prentisiaethau Cymru 2015 yn y seremoni wobrwyo yn y Celtic Manor ddiwedd mis diwethaf.

Dyma sylw i ddau o'r enillwyr a ddaeth i'r brig:

Mae EE a Choleg Merthyr Tudful yn dathlu anrhydedd mawr yng Ngwobrau Prentisiaethau Cymru 2015 | [Mwy o'r Coleg Merthyr Tudful](#)

Mae diddanwr plant, sydd wedi gorchfygu trasiedi yn ei bywyd gan ennill y gobaith o gael swydd ei breuddwydion fel Redcoat gyda Butlins, wedi ennill prif wobwr yng Ngwobrau Prentisiaethau Cymru 2015. | [Mwy o Goleg Sir Gar](#)

Darlithydd ffasiwn yn y ras i ennill gwobr am wneud hetiau priodasol

Mae darlithydd ffasiwn yng Ngholeg Sir Gâr wedi cyrraedd y rhestr fer am ei gwaith gwneud hetiau yng Ngwobrau Priodasol Cenedlaethol Cymru.

[Mwy>>>](#)

Canmoliaeth ar gyfer cynhyrchiad ffilm RSPCA ar Les Anifeiliaid

Mae grŵp o fyfyrwyr Gradd Sylfaen o Goleg Merthyr Tudful wedi cael cymeradwyaeth uchel ar gyfer eu cynhyrchiad o ffilm RSPCA Les Anifeiliaid Gwylt.

[Mwy>>>](#)

Cyfleoedd Dysgu

Prentisiaid o'r Almaen yn dysgu am y diwydiant electroneg a thechnoleg ddigidol yn Ne Cymru

Treuliodd grŵp o brentisiaid o'r Almaen dair wythnos yng Ngholeg Gŵyr Abertawe yn ddiweddar yn dysgu am y diwydiant electroneg a thechnoleg ddigidol yn Ne Cymru.

Fel rhan o'r ymweliad, aeth y myfyrwyr i ymweld ag amrywiaeth o gwmnïau sydd â chysylltiadau agos â'r coleg fel Elite Aerials, Zeta Alarm Systems, Trojan Electronics, BSC a TongFang Global.

[Mwy>>>](#)

Buddsoddi mewn doniau ifanc i rhoi hwb i'r gweithlu GIG a gwyddorau bywyd

Estynnwyd gwahoddiad yn ddiweddar i dros 200 o ddisgyblion Blwyddyn 11 o Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt i gynhadledd gyrfaedd arbennig oedd yn hoelio sylw ar yr amrywiaeth o swyddi yn y GIG a'r sector gwyddorau bywyd, dan drefniant Bev Wilson-Smith, o Goleg Gŵyr Abertawe.

[Mwy>>>](#)

Ail fyfyrwr yn camu i'r llwyfan ar gyfer Frantic Assembly

Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae myfyrwr y Celfyddydau Perfformio o Goleg Gŵyr Abertawe wedi cael ei ddewis i gymryd rhan mewn perfformiad arddangos gyda'r cwmni theatr arobryn Frantic Assembly yn dilyn proses chwilio a dewis ar draws y DU.

[Mwy>>>](#)

Myfyrwyr celf yn ychwanegu sblash o liw i ysbyty lleol

Mae cleifion ac ymwelwyr i Ysbyty Aneurin Bevan, Glyn Ebwy yn mwynhau gwaith celf a ffotograffiaeth a gynhyrchwyd gan fyfyrwr talentog Parth Ddysgu Blaenau Gwent.

[Mwy>>>](#)

Myfyrwyr yn Adeiladu Draig Ar Gyfer y Pabi Coch

Gofynnwyd i dîm o fyfyrwyr Adeiladu Grŵp Llandrillo Menai adeiladu draig allan o bren i letya cannoedd o babïau

[Mwy>>>](#)

Myfyrwyr yn perfformio 'Titus Andronicus'

Yr wythnos ddiwethaf, perfformiodd myfyrwyr y Celfyddydau o'r Coleg Merthyr Tudful 'Titus Andronicus' yn Theatr Beaufort, Glyn Ebwy fel rhan o Wyl Shakespeare Ysgolion.

[Mwy>>>](#)

Myfyrwyr Coleg Gwent yn mynychu Byddin Ddraig

Cymerodd myfyrwyr Gwasanaethau Cyhoeddus Coleg Gwent rhan mewn digwyddiad y fyddin yn Abertawe i gael cipolwg ar fywyd milwrol a'r gyrfaedd amrywiol sydd ar gael.

[Mwy>>>](#)

ColegauCymru, Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB
CollegesWales, Unit 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Cardiff, CF15 7AB